# Ymateb Place2Be i Fframwaith Dull Ysgol Gyfan Llywodraeth Cymru

*Mae Place2Be yn croesawu'r Fframwaith newydd yng Nghymru ar gyfer sefydlu Dull Ysgol Gyfan o ymdrin â iechyd meddwl a llesiant.*

Place2Be yw'r prif ddarparwr gwasanaethau cymorth iechyd meddwl mewn ysgolion yn y Deyrnas Unedig. Buom yn hyrwyddo dull ysgol gyfan o ymdrin â iechyd meddwl plant ers i ni gael ein sefydlu fwy na 25 mlynedd yn ôl. Rydym yn croesawu fframwaith newydd Llywodraeth Cymru, sef y *Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol.*

Gwyddom o'n profiad o weithio mewn ysgolion fod cefnogi iechyd meddwl plant yn cwmpasu mwy na chynnig cwnselwyr ysgol. Dyna pam rydym yn llwyr gefnogi'r Fframwaith newydd yng Nghymru sy'n cydnabod pwysigrwydd sefydlu dull ysgol gyfan. I gefnogi iechyd meddwl plant, mae angen i ni gefnogi'r system, yr oedolion, a'r gweithwyr proffesiynol o amgylch y plentyn. Dyna pam rydym yn gweithio mewn partneriaeth â rhieni a theuluoedd yn ogystal ag arweinwyr ysgol, athrawon a staff cynorthwyol. I Place2Be, elfennau allweddol ein dull gweithredu yw atal ac ymyrryd yn fuan, gan annog plant i siarad yn agored am eu teimladau a'u hemosiynau, heb stigma.


Mae Place2Be yn gweithio gyda'n hysgolion partner i ddarparu gwasanaethau cyffredinol a gwasanaethau wedi'u targedu sy'n rhoi sylw i iechyd meddwl plant, o waith dosbarth cyfan, gwasanaethau a sesiynau galw heibio trwy hunanatgyfeirio (Place2Talk) i gwnsela unigol a gwaith grŵp arbenigol. Lleolir Ymarferydd Iechyd Meddwl Place2Be yn yr ysgol, a bydd yn gweithio'n uniongyrchol gyda phlant, rhieni a gofalwyr, athrawon a staff cynorthwyol. Cefnogir hyn gan seilwaith seicolegwyr clinigol Place2Be, ac arbenigwyr eraill sy'n cynnig adnoddau ychwanegol, hyfforddiant, gwerthuso a diogelu.



Royal Patron
HRH The Duchess
Of Cambridge

Registered Office: Place2Be, 175 St John St, Clerkenwell, London EC1V 4LW, 020 7923 5500
Registered Charity in England and Wales (1040756) and in Scotland (SC038649)
Registered Company in England and Wales (02876150)

Registered with FUNDRAISING REGULATOR




**Sut mae Place2Be yn cyd-fynd â'r Fframwaith newydd?**

Mae gwasanaethau Place2Be yn cyd-fynd â Fframwaith newydd Llywodraeth Cymru. Gall offeryn archwilio ysgol Place2Be helpu gyda cham cwmpasu cychwynnol y Fframwaith. Mae'r offeryn hwn yn helpu ysgolion i nodi eu cryfderau a meysydd i'w datblygu mewn perthynas â chreu ysgol sy'n iach yn feddyliol.

Rydym yn deall y pwysau enfawr sydd ar arweinwyr ysgolion, athrawon a staff cynorthwyol ac rydym ni'n darparu lle a chymorth iddynt trwy ein sesiynau Place2Think. Mae'r rhain yn cynnig lle i'r staff gynnal ôl-drafodaeth, datblygu strategaethau i gefnogi plant penodol, a lle hefyd i gefnogi eu llesiant meddyliol eu hunain. Pan ddaw hi'n bryd datblygu cynllun gweithredu a cham gweithredu'r Fframwaith newydd, gall Place2Be ddarparu dull gweithredu integredig, gan gynnig gwasanaethau cyffredinol, fel Place2Talk a gwaith dosbarth cyfan. Rydym hefyd yn darparu cymorth arbenigol a chymorth wedi'i dargedu pan fydd eu hangen ar blant a'u teuluoedd, ar ffurf cwnsela unigol, gwaith grŵp a chymorth i rieni/ofalwyr.


Agwedd bwysig arall ar y Fframwaith newydd yw'r cam Gwerthuso. Fel gwasanaeth seiliedig ar dystiolaeth, gall Place2Be gefnogi'r gwaith hwn hefyd. Rydym yn casglu data bob tymor ac mae gennym dîm Ymchwil a Gwerthuso canolog sy'n casglu tystiolaeth ac yn asesu ein heffaith, wedi'u cefnogi gan Grŵp Ymchwil a Gwerthuso annibynnol sy'n cynnwys academyddion blaenllaw ym meysydd datblygiad plant a llesiant. Gall ysgolion ychwanegu'r dystiolaeth a'r data hyn at eu gwerthusiad.



Royal Patron
HRH The Duchess
Of Cambridge

Registered Office: Place2Be, 175 St John St, Clerkenwell, London EC1V 4LW, 020 7923 5500
Registered Charity in England and Wales (1040756) and in Scotland (SC038649)
Registered Company in England and Wales (02876150)

Registered with FUNDRAISING REGULATOR




**Y Fframwaith newydd yng Nghymru ar gyfer sefydlu dull ysgol gyfan**

Yn ogystal â'r gwaith mewn ysgolion, mae Place2Be hefyd yn cynnig rhaglen datblygiad proffesiynol parhaus i athrawon a staff ysgol. Mae hyn yn cynnwys ein rhaglen Sylfaen Pencampwyr Iechyd Meddwl a fu ar gael ar-lein yn rhad ac am ddim i 2,500 o athrawon a staff ysgolion ledled Cymru yn ystod blwyddyn academaidd 2020-21. Mae'r rhaglen fer hon sy'n para pum wythnos yn darparu ymwybyddiaeth sylfaenol o iechyd meddwl plant. Yn bwysig, mae'r rhaglen hefyd yn rhoi sylw i lesiant meddyliol yr oedolion o amgylch y plentyn neu'r person ifanc.

Place2Be yw un o'r partneriaid y tu ôl i wefan Mentally Healthy Schools ac mae'n darparu adnoddau eraill i gefnogi ysgolion i hybu iechyd meddwl da.

**Dolenni defnyddiol**

- Rhagor o wybodaeth am Place2Be yng Nghymru
- #Place2BeCymru
- Mae'r ffilm fer hon yn rhoi trosolwg o'n gwaith gydag ysgolion.
- Cysylltwch â thîm Place2Be Cymru yn: Wales@place2be.org.uk



Royal Patron
HRH The Duchess
Of Cambridge

Registered Office: Place2Be, 175 St John St, Clerkenwell, London EC1V 4LW, 020 7923 5500
Registered Charity in England and Wales (1040756) and in Scotland (SC038649)
Registered Company in England and Wales (02876150)

Registered with FUNDRAISING REGULATOR